CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

BLODAU GWYLLT A RHEOLI CHWYN

CWESTIYNAU CYFFREDIN



Tabl cynnwys

02 Cyflwyniad

02 Pam ydym ni'n gwneud hyn?

03 Sut ydym ni'n ariannu'r gwaith blodau gwyllt?

03 Pam mae'r safleoedd yn edrych mor wahanol?

04 Pam mae'r safleoedd yn llai lliwgar neu'n troi'n llai lliwgar?

04 Faint mae hi'n ei gymryd i ddatblygu safle blodau gwyllt?

05 A yw'r safleoedd blodau gwyllt yn cael eu rheoli?

05 Ydym ni'n ystyried lleiniau gweledegdd?

05 A yw safleoedd bywyd gwyllt yn annog baw cŵn, sbwriel neu'n achosi risgiau tân ac yn denu fermin?

05 Nid yw safleoedd blodau gwyllt yn daclus

06 Pam mae arferion rheoli chwyn wedi newid?

06 Beth ydym ni'n ei wneud i helpu i feithrin dealltwriaeth am ein safleoedd blodau gwyllt a glaswelltir?

07 Cyfeiriadau

Cyflwyniad

Gall safleoedd blodau gwyllt weithiau arwain at gwestiynau, boed y rheiny gan gydweithwyr, Cynghorwyr neu'r cyhoedd. Isod, rydym ni wedi llunio rhestr o gwestiynau cyffredin i chi allu troi ati. Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill, cysylltwch â biodiversity@flintshire.gov.uk.

Pam ydym ni'n gwneud hyn?

Mae nifer o bethau sydd wedi arwain at ddatblygu'r prosiect blodau gwyllt.

Natur, yr amgylchedd a phobl

Mae blodau gwyllt yn elfennau pwysig i natur. Mae mwy na 200,000 o rywogaethau'n dibynnu ar blanhigion blodeuol fel adnodd bwyd, ac mae 90% o rywogaethau planhigion blodau'n dibynnu ar anifeiliaid ar gyfer agwedd o atgenhedlu [1]. Mae'r berthynas glos hon yn amlygu pa mor ddibynnol yw bywyd gwyllt ar y cynefinoedd hyn sydd bellach mewn perygl.

Mae glaswelltiroedd yn darparu adnoddau hollbwysig i gynnal poblogaethau pryfed peillio, sy'n allweddol fel ffynhonnell fwyd i greaduriaid gwyllt eraill, ac i beillio cnydau hefyd. Mae prinder bwyd yn bryder gwirioneddol yn fyd-eang gyda phoblogaeth gynyddol i'w bwydo, a thrwy sicrhau bod gennym ni boblogaethau iach a bioamrywiol o bryfed peillio yn Sir y Fflint, gallwn sicrhau diogelwch bwyd drwy ffermydd lleol sy'n darparu bwyd ar gyfer ein cymunedau [2].

Mae cefn gwlad Gogledd Cymru'n enwog am ei harddwch, sy'n golygu bod twristiaeth yn ddylanwad economaidd mawr. Er bod rhai safleoedd yn fwy diarffordd, mae hybu blodau gwyllt yn ein hardaloedd trefol yn dod â mwy o liw i fannau llwydaidd, gan hefyd greu lle mwy naturiol a diddorol i dwristiaid. Yn ogystal â hyn, drwy'r byd i gyd, mae 55% o bobl – canran sy'n cynyddu – yn byw mewn trefi a dinasoedd, sy'n eu datgysylltu oddi wrth natur. Mae disgwyl i'r hyn gyrraedd 70% erbyn 2050, ac mae pryderon iechyd meddyliol a chorfforol yn debygol o gynyddu ynghyd â hynny [3]. Mae gweithwyr iechyd eisoes yn darparu presgripsiynau natur, gan wybod o ymchwil cyfredol fod treulio amser yn natur neu'n agos ato'n gallu gwella iechyd cyffredinol yn aruthrol [4]. Mae iechyd y cyhoedd yn wir bryder, a gall ardaloedd o flodau gwyllt gyfrannu at ei gefnogi.

Gyda dirywiad o 97–99% mewn dolydd blodau gwyllt naturiol ers 1930, mae gwaith Cyngor Sir y Fflint yn sicrhau ein bod yn atal colli'r cynefinoedd hyn yn gyfan gwbl, gan wella'r gorchudd o laswelltir sydd ar draws Sir y Fflint yn raddol [5].

Deddfwriaeth

Mae agweddau deddfwriaethol hefyd yn allweddol i'r newidiadau i'r drefn o reoli'r ystâd. Un o'r prif agweddau hynny yw Adran 6 'Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau' yn **Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** sy'n mynnu bod awdurdodau cyhoeddus yn gweithredu i warchod a gwella bioamrywiaeth a hybu cydnerthedd ecosystemau [6]. Mae'n rhaid dangos tystiolaeth o gydymffurfio â'r ddyletswydd hon, yn ogystal â'r gofynion sydd i ddod yn sgil **Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)**, a fydd yn arwain at dargedau bioamrywiaeth cenedlaethol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynnu bod awdurdodau lleol yn gweithredu'n gynaliadwy i osgoi creu problemau i bobl heddiw ac yn y dyfodol [7]. Drwy warchod a gwella mannau naturiol er budd iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd, rydym ni'n sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy i gymunedau yn Sir y Fflint.

Sut ydym ni'n ariannu'r gwaith blodau gwyllt?

Mae cyllid grant wedi bod yn greiddiol i'r prosiect blodau gwyllt. Mae wedi cefnogi pob elfen o'r gwaith – staff y prosiect, hyfforddiant, peiriannau, hadau a chostau contractwyr ac ymgysylltu.

Nid yw'r newidiadau buddiol yma wedi dargyfeirio cyllid y Cyngor oddi wrth flaenoriaethau eraill.

Mae amcanion hirdymor hefyd yn rhan o gynlluniau'r prosiect, i sicrhau bod ein hystâd yn cael ei rheoli'n gynaliadwy, er enghraifft, buddsoddi mewn peiriannau torri a chasglu i gynnal a chadw a gwella safleoedd dros y tymor hir. Mae mynd â'r tocion oddi yno'n gwneud y pridd yn llai ffrwythlon, sy'n gwanhau twf glaswelltau cryf, ac felly yn arwain at lai o waith torri a chasglu.

Y weledigaeth hirdymor ar gyfer y gwaith yw creu ystâd sy'n well i bobl a natur sydd â llai o ofynion cynnal a chadw.

Pam mae'r safleoedd yn edrych mor wahanol?

Mae blodau gwyllt a glaswellt yn tyfu o ganlyniad i lawer o ffactorau amgylcheddol, er enghraifft, amodau'r pridd, hanes y safle, y tywydd y flwyddyn honno a'r gwaith i'w rheoli.

Mae llawer o'r ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth ni sy'n golygu bod adfer dolydd yn gymhleth. Nid oes un dull sy'n addas ar gyfer pob sefyllfa ac mae angen rheoli pob safle yn ôl y gofynion unigol.

Mae pob safle blodau gwyllt newydd yn cael ei asesu'n drylwyr. Mae gennym amrywiaeth o ddulliau i greu safleoedd blodau gwyllt a bydd y dull yn cael ei addasu ar gyfer y safle. Er enghraifft, gallai safle eisoes fod ag amrywiaeth da o flodau gwyllt yn y banc hadau.

Fe fyddem eisiau gwarchod a gwella ar hynny heb ychwanegu hadau felly byddem yn ei reoli yn y modd hwnnw. Efallai bod safle sydd heb lawer o amrywiaeth, mewn ardal drefol ac mewn man amlwg iawn. Byddai modd ystyried hadu hwn.

O ganlyniad, bydd pob safle'n edrych yn wahanol. A dweud y gwir, mae amrywiaeth yn hollbwysig i sicrhau ein bod yn cefnogi gwahanol rywogaethau.

I weld mwy o fanylion am ein dull, ewch i'n tudalennau gwe yma.

Pam mae'r safleoedd yn llai lliwgar neu'n troi'n llai lliwgar?

Planhigion blodau unflwydd (planhigion sy'n tyfu unwaith ac yna'n marw) yw'r rhywogaethau sy'n creu'r lliwiau mwyaf llachar (er enghraifft, Penlas yr Ŷd, Pabi, Melyn yr Ŷd). Er bod modd hau'r rhywogaethau hyn drwy gymysgeddau o hadau blodau gwyllt, anaml y byddent yn blodeuo gyda'i gilydd yn doreth mewn dôl. Nid yw'r safleoedd blodau gwyllt unflwydd yn ddôl naturiol, ond maent yn rhoi mwy o liw yn y flwyddyn gyntaf a chwa o liw mewn safleoedd amlwg iawn.

Mae rhywogaethau lluosflwydd (planhigion sy'n tyfu o'r naill flwyddyn i'r llall) yn flodau gwyllt mwy hirdymor a fydd yn aros yn y tir ac yn blodeuo flwyddyn ar ôl blwyddyn, (er enghraifft, y Bengaled, Pys y Ceirw a Llygad Llo Mawr). Efallai fod rhywogaethau lluosflwydd yn llai deniadol, ond maent yn creu amrywiaeth mwy hirdymor ac yn gallu creu tymor blodeuo hirach a helpu i leihau erydiad pridd.

Mae cost a gwaith o hyd i gynnal ein holl safleoedd blodau gwyllt gan fod dolydd traddodiadol yn gynefin sy'n cael ei reoli, ond mae mwy o waith cynnal ar safleoedd blodau gwyllt unflwydd gan fod angen eu hail-greu bob blwyddyn. Gan hynny, maent o lai o fudd i fioamrywiaeth. Drwy gynnwys rhywogaethau lluosflwydd ar ein safleoedd, mae'r safle'n dod yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir ac yn cefnogi gwell amrywiaeth o rywogaethau gan barhau i roi rhywfaint o liw i'r ardal.

Faint mae hi'n ei gymryd i ddatblygu safle blodau gwyllt?

Bydd hyn yn amrywio rhwng safleoedd. Ar rai sy'n cael eu hadu, bydd yn dibynnu ar yr amser hau a'r tywydd. Ar safleoedd rydym yn eu gwella drwy waith rheoli, gall fod yn flynyddoedd.

Rydym yn byw mewn byd sydd bob amser ar frys ac yn disgwyl canlyniadau heb orfod aros.

Mae planhigion sy'n blodeuo'n dibynnu ar y tymhorau a'r tywydd ac yn cymryd amser i ddatblygu ac addasu. Er nad yw bob amser yn boblogaidd nac yn gyfleus, mae angen i ni bwysleisio pwysigrwydd caniatáu i'r safleoedd ddatblygu.

A yw'r safleoedd blodau gwyllt yn cael eu rheoli?

Ydyn. Yn ddiweddar, rydym wedi symleiddio ein prosesau ac rydym bob amser yn gwella lle gallwn ni. Rydym wedi mapio ein safleoedd, sy'n cyfrannu at ein rhaglen fonitro, sy'n ymwneud ag arolygu pob safle a dadansoddi gofynion y safleoedd unigol. Rydym ni yn aml yn derbyn awgrymiadau ar y safleoedd gan gydweithwyr, y cyhoedd a Chynghorwyr.

Os oes gennych bryderon am safleoedd neu unrhyw awgrymiadau, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod.

Ydym ni'n ystyried lleiniau gweledegdd?

Nid ydym yn cynnwys lleiniau gweledegdd yn rhan o'r prosiect blodau gwyllt gan eu bod yn cael eu cynnal yn rhan o flaenoriaethau a phrotocolau iechyd a diogelwch ymylon ffyrdd. Os oes pryderon am weledegdd, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Stryd a fydd yn trefnu i'w torri.

A yw safleoedd bywyd gwyllt yn annog baw cŵn, sbwriel neu'n achosi risgiau tân ac yn denu fermin?

Mae baw cŵn a sbwriel yn broblemau cyffredin sydd heb eu cyfyngu i Sir y Fflint nac ardaloedd blodau gwyllt. Ar safleoedd mwy, rydym ni wedi torri rhannau sy'n caniatáu mynediad i gasglwyr sbwriel i gasglu unrhyw sbwriel a allai fod wedi'i ddal mewn tyfiant hir.

Mae risg o dân wrth i haen o wellt ym môn y tyfiant ymgasglu. Mae amserlen dorri a chasglu ar gyfer pob safle, sy'n atal yr haen hon rhag ymgasglu a'r risg gysylltiedig o dân ar ein safleoedd.

Mae llygod a llygod mawr yn cael eu denu at ffynonellau bwyd rheolaidd a sbwriel ac nid oes tystiolaeth eglur i awgrymu y byddent yn cael eu denu at gwair hir.

Nid yw safleoedd blodau gwyllt yn daclus

Y farn nad yw safleoedd blodau gwyllt ac ardaloedd o laswellt hir yn daclus ac yn dwt yw un o'n heriau mwyaf, sy'n farn gyffredin y tu hwnt i Sir y Fflint hefyd. Nid yw natur bob amser yn daclus ac yn dwt ond mae'n hanfodol ar gyfer ein hiechyd a'n lles a'n goroesiad.

Mae gennym lwyth o nodweddion yn y parth cyhoeddus nad ydynt yn neilltuol yn ddel, er enghraifft, biniau, bolardiau, draeniau a rheiliau. Mae'r nodweddion hyn yn darparu swyddogaeth angenrheidiol, fel mae ein blodau gwyllt a'n glaswelltiroedd.

swyddogaeth angenrheidiol, fel mae ein blodau gwyllt a'n glaswelltiroedd.
Fel cymuned, mae angen i ni ailystyried pwysigrwydd yr asedau naturiol hyn. Mae ein glaswelltiroedd yn cyflawni nifer o swyddogaethau ac yn darparu llawer o fanteision fel mae'r adran 'Pam ydym ni'n gwneud hyn?' yn ei nodi.

Pam mae arferion rheoli chwyn wedi newid?

Fel awdurdod lleol, rydym yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru i ddefnyddio cyn lleied â phosib' o'r chwynladdwr glyffosad neu unrhyw gemegyn gwenwynig arall oherwydd eu potensial i niweidio pobl.

Mae 'chwyn' a phlanhigion palmant i bob pwrpas yn flodau gwyllt, ond yn tyfu yn y lle anghywir. Gan ddefnyddio cyllid grant, rydym wedi buddsoddi mewn nifer o ddulliau eraill i'w trin, er enghraifft, ewyn poeth, peiriannau rhwygo chwyn, gwres, a beic pedair olwyn gyda chwistrellwr arno sy'n defnyddio cemegau amgen sydd ddim yn wenwynig.

Ar ben hyn, rydym yn cefnogi mentrau lleol i annog y cyhoedd i gymryd rhan i gynnal balchder yn ein hardal leol trwy chwynnu.

Am fwy o wybodaeth am y newidiadau rheoli chwyn, darllenwch ein "Briff Rheoli Chwyn Tachwedd 2025".

Beth ydym ni'n ei wneud i helpu i feithrin dealltwriaeth am ein safleoedd blodau gwyllt a glaswelltir?

Mae ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth yn elfen allweddol o'r prosiect hwn. Rydym ni'n helpu i newid barn pobl trwy arwyddion, torri'r borderi a llwybrau sy'n amlygu bwriad y safle.Mae sioe deithiol lwyddiannus am flodau gwyllt wedi'i chynnal dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan ymweld â digwyddiadau pwysig ar draws Sir y Fflint. Bydd hyn yn parhau yn 2026.

Drwy ymgysylltu, ein nod yw gwella dealltwriaeth o bwysigrwydd dolydd a chodi ymwybyddiaeth drwy ein gwefan [8], taflenni, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a chynnal digwyddiadau cyhoeddus.

Cyfeiriadau

1. Bain. G, et al. Removing flowers of a generalist plant changes pollinator visitation, composition, and interaction network structure. Ecosphere: https://esajournals.onlinelibrary.wiley.com/doi/pdf/10.1002/ecs2.4154 (2022)

2. Smith M.R. et al. Pollinator Deficits, Food Consumption, and Consequences for Human Health: A Modelling Study. Environmental Health Perspectives: https://doi.org/10.1289/EHP10947 (2022)

3. The impact of green spaces on mental health in urban settings scoping review. Journal of Mental health https://www.researchgate.net/profile/Geoff-Mccombe/publication/340802745_The_impact_of_green_spaces_on_mental_health_in_urban_settings_a_scoping_review/links/5ea4214545851553faad4cfc/The-impact-of-green-spaces-on-mental-health-in-urban-settings-a-scoping-review.pdf (2020)

4. GIG Lloegr - https://www.england.nhs.uk/personalisedcare/social-prescribing/green-social-prescribing/

5. Plantlife - https://www.plantlife.org.uk/learning-resource/managing-meadows/

6. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Llywodraeth Cymru: https://cyfraith.llyw.cymru/deddf-yr-amgylchedd-cymru-2016

7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html

8. Cyngor Sir y Fflint – Tudalen we blodau gwyllt https://www.siryfflint.gov.uk/cy/LeisureAndTourism/Countryside-and-Coast/Wildflowers/Home.aspx



CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

CWESTIYNAU CYFFREDIN AM
FLODAU GWYLLT A RHEOLI CHWYN

biodiversity@flintshire.gov.uk